urdd.org

WAW!!

ATGA Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur Ffôn: 029 2075 5715

Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

Gwyliau Antur 2009

Trwy gydol 2009, mae Gwersyll yr Urdd Glan-llyn yn darparu gwyliau ar eich cyfer chi – cyfle i fwynhau cyfnod ar lan Llyn Tegid ynghanol mynyddoedd Eryri. Cewch gyfle i brofi gwefr yr holl weithgareddau amrywiol gan gynnwys: –

CANŴIO, CEUFADU, RHWYFO, ***Y SITONS***, ***HWYLIO*** *ac* ***ADEILADU RAFFT***; ***RAFFTIO DŴR GWYN***, ***WAL DDRINGO***, ***MYNYDDA***, *y* ***BOWLIO DEG, LLAFNROLIO, PWLL NOFIO, NEUADD CHWARAEON*** *aml bwrpas,* ***DATRYS PROBLEMAU***, *ynghyd â threulio noson fythgofiadwy ar y* ***BIFI*** *– a'r* ***CWRS RHAFFAU UCHEL*** *ynghanol coedwig Glan-llyn. Mae rhaglen lawn o adloniant gyda'r hwyr gan gynnwys dawnsio, teithiau dirgel, disgo, gala nofio, chwaraeon a gemau o bob math.*

CEIR GOSTYNGIAD O 10% AR DÂL GWERSYLL OS ARCHEBIR LLE CYN DIWEDD MIS MAWRTH 2009 (Cyrsiau Gorffennaf – Rhagfyr yn unig)

Mae gan y Gwersyll dros hanner canrif o brofiad o ddarparu cyrsiau a gwyliau llwyddiannus i filoedd ar filoedd o bobl ifanc. Os oes gennych ddiddordeb, siaradwch â'ch ffrindiau ac yna naill ai ewch i weld eich athro neu arweinydd eich adran/aelwyd, neu wrth gwrs fe allwch lenwi y ***Ffurflen Archebu*** isod a'i dychwelyd atom yng Nglan-llyn.

ENWAU A DYDDIADAU'R GWYLIAU ANTUR 2009

Dyddiadau	Enw'r Cwrs	Ar gyfer pwy ?	Cost	Blaendal
6-8 Mawrth	Cwrs Hyfforddi (penwythnos)	Bl.10+ Cymry Cymraeg	£ 87:00	£40:00
8-10 Ebrill	'Antur y Pasg' (Mercher - Gwener)	Bl.12-13 Cymry Cymraeg	£ 95:00	£50:00
18-21 Gorffennaf	Gwersyll Dysgwyr	Bl.7,8,9,10,11 Dysgwyr	£135:00	£70:00
18-24 Gorffennaf	Cwrs Anturus 1 (chwe noson)	Grwpiau Ysgolion	£245:00	£120:00
21-24 Gorffennaf	'Gwyllt a Gwlyb' (tair noson)	Bl.7-8 Cymry Cymraeg	£135:00	£70:00
27-31 Gorffennaf	Cwrs Anturus 2 (pedair noson)	Grwpiau Ysgolion	£175:00	£90:00
10-14 Awst	'Stŵr Ger y Dŵr' (pedair noson)	Bl.7-8 Cymry Cymraeg	£169:00	£90:00
16-21 Awst	'Cyffro' (pum noson)	Bl.9-10 Cymry Cymraeg	£179:00	£90:00
23-25 Hydref	Cwrs Hyfforddi (penwythnos)	Bl.10+ Cymry Cymraeg	£ 87:00	£40:00
27-29 Tachwedd	'Twrci a Trimins' (penwythnos)	Bl.7-9 Dysgwyr	£ 63:00	£63:00
4-6 Rhagfyr	'Twrci a Trimins' (penwythnos)	Bl.7-9 Cymry Cymraeg	£ 63:00	£63:00

Trefnir Bysiau o'r lleoliadau canlynol –

£25: Caerdydd, Pontypridd, Merthyr Tudful, Abertawe, Pont Abraham, Rhydaman
£21: Aberhonddu, Llanelwedd, Caerfyrddin, Llanbedr PS, Aberaeron
£17: Rhaeadr Gwy, Caersws, Llangefni, Porthaethwy, Bangor, Caernarfon, Aberystwyth
£13: Porthmadog, Machynlleth

Cewch fanylion pellach am y bysiau ar ôl i ni dderbyn eich cais

---

Ffurflen Archebu Gwyliau Antur 2009

Defnyddiwch brif lythrennau os gwelwch yn dda

Enw: _____ Oedran: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Côd Post: _____

E bost _____

Rhif(au) Ffôn _____

Ysgol/Coleg: _____ Rhif Aelodaeth yr Urdd: _____

Enw a Dyddiadau'r Cwrs: _____

Lleoliad codi'r bws (os yn berthnasol): _____

Amgaeaf y tâl canlynol:
Blaendal/Tâl Llawn £ _____ Tâl Bws £ _____ **CYFANSWM £** _____

CEIR GOSTYNGIAD O 10% AR DÂL GWERSYLL OS ARCHEBIR LLE CYN DIWEDD MIS MAWRTH 2009 (Cyrsiau Gorffennaf – Awst yn unig).

Faint sydd angen ei dalu nawr ? Dylid talu'r blaendal ac unrhyw dâl bws gyda'r cais hwn. Rhaid talu'r gweddill oddi fewn i chwe wythnos o gychwyn y cwrs. Sieciau'n daladwy i Urdd Gobaith Cymru.

Ad-daliad - ni roddir ad-daliad o'r blaendal heblaw am resymau meddygol yn unig (ad-daliad o 50%). Rhaid anfon tystysgrif oddi wrth y meddyg.

Gostyngiad Teulu: ceir gostyngiad os oes brawd neu chwaer yn mynychu Gwyliau Antur Glan-llyn neu Wersyll Haf Llangrannog yn unig, sef £10 ar gwrs 5/6 noson; £5 ar gwrs 2/3 noson.

Dychwelwch at:
Gwyliau Antur, Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ffôn 01678 541 000
Ffacs 01678 541 001
glan-llyn@urdd.org

www.urdd.org/glanllyn